

Adroddiad perfformiad amgylcheddol blynyddol ar gyfer Hafren Dyfrdwy 2022

Paratowyd gan y tîm Dulliau Rheoleiddio Dŵr, Tir, Bioamrywiaeth a'r Môr

Cyflwyniad

Ein diben yw sicrhau rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol yn ein holl waith. Mae hyn yn golygu edrych ar ôl yr aer, tir, dŵr, bywyd gwylt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a chynnig dyfodol gwell i bawb.

Rydym yn monitro gweithgareddau cwmnïau dŵr er mwyn lleihau'r effaith y mae eu hasedau a'u gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd. Rydym yn gwneud hyn drwy wirio eu perfformiad amgylcheddol drwy gydol y flwyddyn mewn meysydd fel lleihau digwyddiadau llygredd, cydymffurfio â thrwyddedau, a chyflawni cynlluniau gwella'r amgylchedd.

Sefydlwyd Hafren Dyfrdwy¹ ar 1 Gorffennaf 2018, gan ffurfio cwmni dŵr a charthffosiaeth sy'n gyfan gwbl o fewn ffin wleidyddol Cymru. Cafodd yr holl² asedau a oedd yn berchen i Severn Trent Water a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy yng Nghymru yn flaenorol, ac a oedd yn cael eu rheoli ganddynt, eu trosglwyddo i Hafren Dyfrdwy. Er mwyn parhau amllder adrodd, ac er mwyn helpu gyda chymariaethau o un flwyddyn i'r llall, mae'r adroddiad hwn yn defnyddio cyfuniad o ddata Hafren Dyfrdwy a data cyfatebol gan Severn Trent Water a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy o'r ardal weithredol y mae Hafren Dyfrdwy yn gyfrifol amdani bellach. Gweler Atodiad 1 am ragor o wybodaeth am hyn.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar berfformiad amgylcheddol Hafren Dyfrdwy ar gyfer 2022. Rydym hefyd yn asesu perfformiad Dŵr Cymru, y gallwch ei weld ar ein [gwefan](#).

Nid yw metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol a ddefnyddir ar gyfer y deg cwmni dŵr a charthffosiaeth mwyaf yng Nghymru a Lloegr yn berthnasol i Hafren Dyfrdwy. Fodd bynnag, rydym yn defnyddio themâu tebyg, er enghraifft digwyddiadau llygredd a chydymffurfedd â thrwyddedau.

¹ Gwybodaeth Tŷ'r Cwmnïau: HAFREN DYFRDWY CYFYNGEDIG, rhif cwmni 0352762, cyfeiriad swyddfa gofrestredig: Packsaddle, Ffordd Wreccsam, Rhostyllen, Wreccsam, Clwyd, LL14 4EH.

² Yr unig eithriad yw gwaith trin dŵr Cwm Elan, a fydd yn parhau i fod yn eiddo i Severn Trent Water ac yn cael ei reoli ganddo er ei fod wedi'i leoli yng Nghymru. Bydd CNC yn rheoleiddio'r safle hwn ac yn darparu data perfformiad amgylcheddol i Asiantaeth yr Amgylchedd, fel y gellir ei gynnwys yn adroddiadau Severn Trent Water.

Prif negeseuon ar berfformiad

Yn 2022 fe wnaeth Hafren Dyfrdwy:

- barhau i berfformio'n dda o safbwynt digwyddiadau llygredd difrifol heb gael unrhyw ddigwyddiadau llygredd difrifol yn 2022;
- gwella cyfanswm nifer yr achosion o lygredd, gan leihau o wyth yn 2021 i bedwar (dau ddigwyddiad carthffosiaeth a dau ddigwyddiad cyflenwad dŵr);
- cael sgôr o 100 yn y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw;
- gwella cydymffurfiaeth ag amodau trwydded gollwng dŵr disgrifiadol;
- cyflenwi 100% o'i gynlluniau ar gyfer Cynllunio Rheoli Asedau 7 (AMP7) y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol.

Ond mae angen i'r cwmni wella yn y meysydd hyn:


- eu lefelau o ddigwyddiadau hunan-gofnodi gan mai dim ond 50% o ddigwyddiadau y maent wedi eu hunan-gofnodi yn 2022 (2 allan o 4);
- cydymffurfio ag amodau trwydded gollwng dŵr rhifol gan fod ganddynt gydymffurfiaeth o 97.8% yn 2022;
- Cydymffurfiaeth Llif Tywydd Sych gan fod tri safle wedi mynd y tu hwnt i'w terfynau.

Digwyddiadau llygredd

Fel rheoleiddiwr, rydym yn ymateb i amrywiaeth eang o ddigwyddiadau llygredd, a daw rhai o'r rhain o asedau a rhwydweithiau cwmnïau dŵr. Rydym yn adrodd ar faint o ddigwyddiadau y mae pob cwmni dŵr yn gyfrifol amdanynt. Diben hyn yw hybu gostyngiad parhaus yn nifer y digwyddiadau llygredd, gyda'r nod o leihau digwyddiadau i sero. Nid ydym yn disgwyl unrhyw ddigwyddiadau difrifol (Uchel).

Fel y dangosir yn y graff isod, roedd Hafren Dyfrdwy wedi gwella eu perfformiad o ran digwyddiadau llygredd yn 2022. Gwnaeth y cwmni:

- gadw at sero digwyddiad llygredd difrifol (Uchel);
- gadw at nifer y digwyddiadau carthffosiaeth— dau yn 2022, a dau yn 2021. Roedd un digwyddiad eleni o waith trin carthion (STW) a'r llall o Orlif Carthffos Cyfun (CSO). Roedd gan y ddau effaith amgylcheddol isel (Categori 3);
- lleihau nifer y digwyddiadau o asedau cyflenwad dŵr ar gyfer 2022 i ddau (o gymharu â chwech yn 2021). Roedd y ddau ddigwyddiad yn deillio o'r rhwydwaith dosbarthu dŵr a chawsant effaith amgylcheddol isel (Categori 3).



Digwyddiadau hunan-gofnodi

Hoffem weld yr holl gwmnïau dŵr yn hunan-gofnodi³ o leiaf 80% o'u digwyddiadau llygredd. Bydd hyn yn golygu y gallwn fod yn fwy hyderus fod y cwmni dŵr yn:

- deall ei asedau a'i rwydweithiau'n well;
- edrych yn barhaus am ffyrdd o wella sut mae'n rhagweld digwyddiadau llygredd, gan gynnwys defnyddio'i ddata telemetreg ei hun i wella lefelau hunan-gofnodi;
- defnyddio ei ddata i nodi manau peryglus a thargedu lleoliadau risg uchel a mathau penodol o asedau;
- rhoi sylw ac ymateb i ddigwyddiadau'n gyflym er mwyn stopio unrhyw effaith cyn gynted â phosibl.

Mae'n siomedig gweld bod perfformiad hunan-gofnodi Hafren Dyfrdwy wedi gostwng i 50% (dau o bob pedwar digwyddiad wedi'u hunan-gofnodi) ar ôl cyflawni 75% yn 2021 a 100% yn 2020. Disgwylwn i Hafren Dyfrdwy wella hunan-gofnodi digwyddiadau yn 2023 ac rydym yn eu hannog i ystyried mentrau eraill a ddefnyddir ar draws y diwydiant i wella a wedyn sefydlogi eu perfformiad yn y maes hwn.

³ I adrodd am ddigwyddiad, cysylltwch â'n Llinell Ddigwyddiadau ar 03000 65 3000

Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng dŵr

Rydym yn rhoi trwyddedau ar gyfer gollwng dŵr, gan gynnwys gollyngiadau sydd wedi'u trin o weithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr cwmnïau dŵr. Mae'r trwyddedau yn gofyn i'r gollyngiad fodloni meini prawf penodol er mwyn sicrhau nad yw'r amgylchedd dŵr yn dirywio. Mae cwmnïau dŵr yn hunan-fonitro eu gollyngiadau ac yn darparu data ar ein cyfer yr ydym yn ei asesu am gydymffurfedd. Rydym yn disgwyl cydymffurfedd â holl amodau'r drwydded.

Mae Hafren Dyfrdwy yn gweithredu 39 o weithfeydd trin carthion rhifol (sydd â chyfanswm o 43 o ollyngiadau) a phump o weithfeydd trin dŵr rhifol (mae gan dri ohonynt gyfanswm llif dyddiol o dros 20m³/dydd, gan olygu eu bod yn ddigon mawr i gael eu cyfrif yn erbyn y metrig Asesiad Perfformiad Amgylcheddol y byddai cwmnïau dŵr mwy yn cael eu rheoleiddio ganddo). Yn 2022, methodd un gollyngiad o waith trin carthion ei derfynau rhifol a ganiateir. Felly, rydym yn adrodd mai 97.8% yw cydymffurfedd Hafren Dyfrdwy ar gyfer 2022 â thrwyddedau gollwng rhifol (un allan o 46).

Mae hyn yn siomedig gan ei fod wedi cyflawni cydymffurfedd rhifol o 100% ers 2017-2021. Disgwyliwn weld gwelliant yn y maes hwn a dychweliad i gydymffurfedd o 100% yn 2023.

Cydymffurfio ag amodau disgrifiadol trwyddedau ar ansawdd dŵr

Mae amodau disgrifiadol yn ymwneud ag agweddau nad ydynt yn rhifol fel cynnal a chadw, rheoli ac adrodd.

Yn gyffredinol, roedd lefel cydymffurfio ag amodau disgrifiadol mewn gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr sydd â thrwyddedau rhifol a disgrifiadol yn 98.2% yn 2022. Roedd hyn yn welliant ar berfformiad 2021 yn erbyn amodau trwydded disgrifiadol.

	Cydymffurfedd ag amodau disgrifiadol	Nifer y gollyngiadau nad ydynt yn cydymffurfio
2020	96.7%	2
2021	91.8%	5
2022	98.2%	1

Roedd y gollyngiad nad oedd yn cydymffurfio yn 2022 yn achos o ddiffyg cydymffurfio Categori 3 a arweiniodd at Rybudd. Adroddir cydymffurfiaid amodau disgrifiadol yn erbyn Gweithfeydd Trin Carthion a Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff yn unig.

Disgwyliwn i Hafren Dyfrdwy anelu at gydymffurfedd o 100% yn y maes hwn a chynnal lefel gyson uchel o berfformiad.

Asesu cydymffurfedd â thrwyddedau gorlif storm

Daethom i'r casgliad hefyd nad oedd 11 o orlifoedd carthffosydd cyfun a ganiateir ac un orsaf bwmpio yn cydymffurfio ag amodau eu trwydded. Nid oedd un o'r gorlifoedd

carthffosydd cyfun yn cydymffurfio mewn amodau y tu hwnt i storm oherwydd rhwystr, a chofnodwyd diffyg cydymffurfiaeth categori 3, a chyhoeddwyd Rhybudd.

Nid oedd y gweddill yn cydymffurfio oherwydd methiant i gyflenwi'r wybodaeth ofynnol ar gyfer yr amodau gwella yn eu trwyddedau erbyn y dyddiad a nodwyd. Cofnodwyd pob un gydag achos o ddiffyg cydymffurfio categori 4⁴.

Cydymffurfio ag amodau llif mewn gweithfeydd trin carthion

Darparodd Hafren Dyfrdwy ddata Llif Tywydd Sych yn unol â gofynion ei drwydded. Adroddwyd bod tri o weithfeydd trin carthion wedi mynd y tu hwnt i'w terfynau Llif Tywydd Sych a ganiateir yn 2021, gan arwain at y safleoedd yn gollwng mwy o garthion wedi'u trin nag a ganiateir. Mae'n ofynnol bod y cwmni yn cynnal ymchwiliadau ac adrodd am achos y gormodiant i ni a, lle y bo'n briodol, cwblhau camau adferol o fewn amserlen y cytunir arni.

Adroddwyd bod un o'r gweithfeydd trin carthion wedi profi problemau data yn 2021 ac mae Hafren Dyfrdwy yn gweithio i'w datrys.

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw safleoedd yng Nghymru y mae Hafren Dyfrdwy yn ymchwilio iddynt oherwydd ymholiadau ynghylch eu terfynau llif trin llawn a ganiateir. Mae Hafren Dyfrdwy yn parhau i ymchwilio'n rhagweithiol i unrhyw safleoedd y mae'n ystyried eu bod mewn perygl o fethu terfynau llif trin llawn eu trwyddedau, sy'n golygu efallai nad ydynt yn trin swm y llif sy'n ofynnol o dan eu trwyddedau.

Mae Hafren Dyfrdwy wedi gwneud cynnydd gyda'i system rheoli fewnol ar gyfer ardystiad MCERTS, sef system sy'n archwilio ac yn ardystio addasrwydd a chywirdeb ei offer monitro llif yn annibynnol. Roedd ei holl safleoedd yn cydymffurfio â gofynion ail-ardystio MCERTS yn 2021.

Ar ddiwedd 2021, cyhoeddodd Asiantaeth yr Amgylchedd ac Ofwat y byddent yn ymchwilio i achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio ag amodau trwydded llif trin llawn gan weithfeydd trin carthion yn Lloegr. Mae'r ymchwiliadau'n dadansoddi gwybodaeth a gyflwynwyd gan gwmnïau dŵr i reoleiddwyr sy'n amlygu achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio â thrwyddedau.

Yng Nghymru, nid ydym yn bwriadu cynnal ymchwiliad tebyg ar hyn o bryd, gan fod gennym ymateb cydymffurfio eisoes ar waith. Mae Hafren Dyfrdwy wedi bod yn rhannu gwybodaeth debyg gyda ni ers 2014. Nododd y gwaith hwn safleoedd yr oedd angen i Hafren Dyfrdwy ymchwilio iddynt, a edrychodd wedyn ar achosion diffyg cydymffurfio. Rydym wedi gweithio gyda Hafren Dyfrdwy i sicrhau bod y safleoedd yn dychwelyd i gydymffurfio â'u trwydded cyn gynted â phosibl.

⁴ Categori 1 – Sylweddol: potensial i achosi effaith sylweddol, difrifol, parhaus a/neu eang ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo;

· Categori 2 – Arwyddocaol: potensial o achosi effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo;

· Categori 3 – Bach: potensial o gael ychydig iawn o effaith ar yr amgylchedd, pobl, a/neu eiddo;

· Categori 4 – Dim effaith: diffyg cydymffurfiaeth ar safle sy'n cael ei reoleiddio na ellir rhagweld unrhyw effaith ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo.

Byddwn yn parhau i gysylltu ag Ofwat i ddeall canlyniadau ei ymchwiliad yn Lloegr. Byddwn yn adolygu ein dull rheoleiddio presennol yng Nghymru, os bydd angen.

Gorlifoedd storm a ganiateir

Mae Hafren Dyfrdwy wedi gosod monitorau hyd digwyddiad (EDM), i fonitro nifer a hyd gollyngiadau, ar bob un o'u gorlifoedd storm a ganiateir. Mae hyn yn golygu y bydd EDM yn cael eu gosod ar yr asedau canlynol:

- gorlifoedd storm ar y rhwydwaith carthffosydd (gorlifoedd carthffosydd cyfun)
- gorlifoedd storm o orsafoedd pwmpio
- gorlifoedd storm mewn gweithfeydd trin carthion

Yn yr adran hon, rydym yn rhannu data ar orlifoedd storm a ganiateir yn unig. Ar gyfer gorlifoedd storm sy'n gweithredu heb drwydded ar hyn o bryd, mae gennym raglen waith arwyddocaol ar y gweill i ddod â nhw o fewn ein fframwaith rheoleiddio, pan fo hynny'n briodol.

Mae rhagor o wybodaeth am orlifoedd storm ar gael ar ein [gwefan](#).

Yn 2022 profodd Cymru fis Chwefror eithriadol o wlyb (yr ail Chwefror gwlypaf ers dros 100 mlynedd), ac yna gwanwyn sych hir a datganiad o sychder am lawer o'r haf a dechrau'r hydref. Gwelodd Mawrth – Awst (gyda'i gilydd) 57% o'r glawiad disgwylidig am yr un cyfnod cyfwerth â chwe mis. Gan roi hyn yn ei gyd-destun, roedd y cyfnod hwn o chwe mis yn drydydd sychaf erioed ers dros 100 mlynedd. Roedd y glawiad arferol neu uwch na'r arfer yn nodweddu misoedd diwedd yr hydref a'r gaeaf wedyn. Gwelodd y flwyddyn gyfan 86% o'r glawiad cyfartalog blynyddol disgwylidig.

Mae gan gyfnodau anarferol o wlyb y potensial i arwain at fwy o ollyngiadau am gyfnod hwy, tra bod tywydd sych yn cael effaith groes. Rydym yn gweithio ar ddull cadarn o nodi pryd mae gollyngiadau yn digwydd mewn tywydd sych a fydd yn ein galluogi i asesu perfformiad gorlif stormydd yn well.

Data EDM yr ydym yn adrodd arnynt

Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio data cryno EDM 2022 a gyflwynwyd gan y cwmni dŵr yn eu datganiad rheoleiddio blynyddol.

Er mwyn gwella tryloywder, o ddata 2022 ymlaen fe wnaethom ofyn i gwmnïau dŵr ddarparu mwy o wybodaeth yn eu cyflwyniadau data EDM. Er enghraifft, rydym bellach yn mynnu bod y math o ased yn cael ei nodi; gallai hyn fod yn orlif storm ar y rhwydwaith carthffosydd, mewn gwaith trin dŵr gwastraff neu mewn gorsaf bwmpio.

Rydym yn bwriadu darparu mwy o fanylion am ddata EDM sy'n cyd-fynd â'r gwaith yn y Tasglu Ansawdd Dŵr Afonydd Gwell.

Rhestrodd Hafren Dyfrdwy 39 o drwyddedau gyda 49 o ollyngiadau gorlif storm yn eu datganiad yn 2022. Roedd gan y mwyafrif o drwyddedau amodau trwydded EDM mewn grym eisoes; mae amrywiadau trwydded EDM yn weddill ar ddwy drwydded.

Defnyddiwyd y data a dderbyniwyd gan y cwmni dŵr i gynhyrchu'r graffiau a'r canrannau isod. Byddwn yn parhau i weithio i wella cyflawnder a chywirdeb data ar gyfer y setiau data gorlif stormydd.

Cyflawnder data

Yn 2022, roedd 13 (27%) o waith monitro hyd digwyddiadau (EDM) y cwmni dŵr ar waith am lai na 90% o'r flwyddyn, sy'n is na safon y diwydiant y cytunwyd arni. Disgwylwn i'r cwmni dŵr wella gweithrediad EDM fel bod pob EDM yn gweithredu am o leiaf 90% o'r amser cyn gynted â phosibl.

Nifer y gollyngiadau


Mae data EDM 2022 ar nifer y gollyngiadau (gan ddefnyddio'r fethodoleg cyfrif bloc⁵) o 49 o orlifoedd storm Hafren Dyfrdwy a ganiateir yn dweud y canlynol wrthym:

- Cafodd 10% (5) o orlifoedd storm 0 gollyngiad;
- Cafodd 22% (11) ollyngiadau rhwng 1 a 9 gwaith.
- Cafodd 39% (19) ollyngiadau rhwng 10 a 39 gwaith.
- Cafodd 24% (12) ollyngiadau rhwng 40 a 99 gwaith.
- Cafodd 4% (2) ollyngiadau rhwng 100 a 300 gwaith.
- Nid oedd unrhyw orlif storm wedi gollwng dros 300 gwaith.

Mae'r graff isod yn dangos y data hwn.

⁵ Y fethodoleg cyfrif bloc a ddefnyddiwyd i gyfrif arllwysiadau o orlifoedd storm yw'r dull cyfrif 12/24:

1. Dechrau cyfrif pan mae'r gollyngiad cyntaf yn digwydd.
2. Mae unrhyw ollyngiad (neu ollyngiadau) yn ystod y bloc 12 awr gyntaf yn cael eu cyfrif fel un arllwysiad.
3. Caiff unrhyw ollyngiad (neu ollyngiadau) yn ystod y bloc 24 awr nesaf, neu wedi hynny, eu cyfrif fel un arllwysiad ychwanegol fesul bloc.
4. Parhewch i gyfrif nes bod bloc 24 awr heb unrhyw ollyngiad. Ar gyfer y gollyngiad nesaf ar ôl y bloc 24 awr heb ollyngiad, bydd angen i chi ddechrau eto gyda'r gyfres o gyfrif arllwysiadau 12 awr a 24 awr. Mae CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn defnyddio'r un dull er cysondeb ar draws cwmnïau dŵr.




Hyd y gollyngiadau

Mae data EDM 2022 ar hyd y gollyngiadau o 49 o orlifoedd storm Hafren Dyfrdwy a ganiateir yn dweud y canlynol wrthym:

- Cafodd 10% (5) o orlifoedd storm 0 awr o ollyngiadau;
- Cafodd 45% (22) ollyngiadau a barodd am fwy na 0 awr ond llai na 50 awr;
- Cafodd 12% (24) ollyngiadau a barodd am o leiaf 50 awr ond llai na 250 awr;
- Cafodd 8% (4) ollyngiadau a barodd am o leiaf 250 awr ond llai na 500 awr;
- Cafodd 6% (3) ollyngiadau a barodd am o leiaf 500 awr ond llai na 1,000 awr;
- Cafodd 6% (3) ollyngiadau a barodd am o leiaf 1,000 awr ond llai na 5,000 awr;
- Ni chafwyd unrhyw ollyngiadau a barodd fwy na 5,000 awr.

Mae'r graff isod yn dangos y data hwn.



Tasglu Ansawdd Dŵr Afon Gwell

Ar 5 Gorffennaf 2022, cyhoeddodd y Tasglu Ansawdd Dŵr Afon Gwell gynlluniau gweithredu ochr yn ochr â'i fap trywydd ar gyfer gorlifoedd storm ar ein [gwefan](#). Mae'r rhain yn nodi amcanion a chanlyniadau mesuradwy ar gyfer cyflawni gwelliannau i'r gwaith o reoli a rheoleiddio gorlifoedd yng Nghymru o safbwynt amgylcheddol. Rydym yn bartner ar y tasglu hwn ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, Ofwat, Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy, sy'n cael cyngor annibynnol gan Afonydd Cymru a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

Fel y mae'r cynlluniau gweithredu yn y map trywydd yn nodi, rydym yn datblygu ein fframwaith rheoleiddio i sicrhau bod cwmnïau dŵr yn mynd i'r afael ag effaith amgylcheddol gollyngiadau o orlifoedd storm.

Adrodd yn y dyfodol

Rydym yn parhau i ddatblygu ein dull rheoleiddio o ran sut rydym yn gwirio, asesu a defnyddio'r data EDM y mae cwmnïau dŵr yn ei gyflwyno i ni. Mae hyn yn cynnwys datblygu ffordd gadarn o nodi gorlifoedd stormydd sy'n methu â chydymffurfio ag amodau eu trwydded.

Byddwn yn parhau i ddatblygu sut rydym yn monitro ac yn adrodd ar berfformiad ar orlifoedd storm yn unol â'n camau gweithredu a nodir yn y cynlluniau gweithredu ar gyfer gorlifoedd storm, gan weithio'n agos gyda'r Tasglu Ansawdd Dŵr Afon Gwell.

Rydym hefyd yn bwrw ymlaen â gwaith i'n galluogi i rannu data cryno EDM o'r datganiad rheoleiddio ar ein cofrestr gyhoeddus.

Adnoddau dŵr

Cydymffurfiaeth gyda thrwyddedau adnoddau dŵr

Yn 2022 fe wnaethom gynnal un asesiad cydymffurfio o drwydded adnoddau dŵr Hafren Dyfrdwy; aseswyd ei fod yn cydymffurfio ac ni nodwyd unrhyw achosion o dorri amodau'r drwydded.

Cynlluniau sychder a chynlluniau rheoli adnoddau dŵr

Mae gan gwmnïau dŵr ddyletswydd i gynnal cyflenwadau dŵr yn eu hardal, heb niweidio'r amgylchedd nac effeithio ar anghenion defnyddwyr dŵr eraill. Mae gofyniad statudol ar gwmnïau dŵr i baratoi, cynnal a chyhoeddi cynlluniau rheoli adnoddau dŵr a chynlluniau sychder. Cyhoeddwyd y Cynllun drafft diweddaraf ac ymgynghorwyd arno yn 2022 a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn ystod hydref 2023. Cyhoeddwyd y Cynllun Sychder diweddaraf ym mis Mawrth 2021. Cyhoeddir y cynlluniau bob pum mlynedd. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chynlluniau rheoli adnoddau dŵr Hafren Dyfrdwy, gweler ei wefan:

- [Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2024](#) (drafft)
- [Cynllun Sychder 2020-2025](#)

Edrychwch hefyd ar ein tudalennau gwe am ragor o wybodaeth ar y pynciau hyn:

- [Cynllunio Adnoddau Dŵr](#)
- [Sychder](#)
- [Canllawiau cynllun sychder](#)

Y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw

Mae metrig y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw yn mesur sut mae'r cydbwysedd gwirioneddol rhwng y cyflenwad a'r galw wedi perfformio o'i gymharu â'r hyn a nodir yng Nghynllun Rheoli Adnoddau Dŵr cwmni dŵr. Disgwyliwn i gwmnïau gael sgôr o 100. Sgôr Mynegai SDBI Hafren Dyfrdwy ar gyfer 2022 yw 100.

Gollyngiadau a defnydd o ddŵr

Mae cwmnïau dŵr yn cyflwyno amrywiaeth eang o ddata i ni ac Ofwat, sy'n cynnwys cyfraddau gollyngiadau a defnydd dŵr. Dylai'r cyfraddau gollyngiadau diwygiedig a'r wybodaeth am ddefnydd dŵr ar gyfer 2022/23 fod ar gael yn www.discoverwater.co.uk cyn bo hir.

Profiad o sychder yn 2022

Yn ystod 2022, cyhoeddwyd sychder ar draws pob rhan o Gymru. O ran cyflenwad dŵr cyhoeddus, datganodd Hafren Dyfrdwy bod sychder yn datblygu am ychydig wythnosau (er na chyrhaeddodd y cwmni lefel sychder) yn un o'i barthau adnoddau dŵr, ac roeddent yn galw ar bobl i arbed dŵr, gan wella rheolaeth ar ollyngiadau a chymryd camau gweithredol i helpu i reoli cyflenwadau dŵr.

Mae'r cwmni wedi asesu'r gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiad 2022, gan arwain at rai argymhellion i wella'r gwaith o baratoi, rheoli ac ymateb i sychder. Mae'r profiad o sychder yn ystod 2022 wedi cael ei ystyried yn eu Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr diweddaraf ac mae unrhyw newidiadau ehangach i waith cynllunio cwmnïau dŵr, megis canllawiau, yn cael eu hystyried gennym ni, Llywodraeth Cymru a Grŵp Cyswllt Sychder Cymru.

Gwaith rheoleiddio arall

Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol

Mae Hafren Dyfrdwy wedi cwblhau holl o'r allbynnau disgwylidig ar gyfer Blwyddyn 3 a nodwyd yn ei Gynllun Rheoli Asedau 7 ar gyfer y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol trwy gwblhau un o'r cynlluniau fel y bwriadwyd. Bydd y gwelliannau a gyflawnwyd gan y rhaglen yn golygu bod asedau'n cyflawni safonau uwch ac yn cyflenwi gwelliannau. Byddwn yn parhau i weithio gyda Hafren Dyfrdwy i sicrhau bod gweddill ei raglen ar gyfer Cynllun Rheoli Asedau 7 yn cael ei chyflenwi erbyn 2025.

Gorfodi (uwch na rhybudd)

Ni wnaethom gymryd unrhyw gamau gorfodi yn uwch na rhybudd yn erbyn Hafren Dyfrdwy yn 2022.

Cydymffurfio â thrwyddedau gwastraff

Mae cwmnïau dŵr yn gweithredu amrywiaeth o weithgareddau gwastraff, yn amrywio o drin biowastraff, tirlenwi, hylosgi bio-nwy, llosgi slwtsh a gorsafoedd trosglwyddo. Ar gyfer weithgareddau a drwyddedir, rydym yn asesu cydymffurfedd yn erbyn amodau trwydded ac yn sgorio unrhyw ddiffyg cydymffurfio. Ni chynaliasom unrhyw asesiadau cydymffurfedd yn 2022. Rydym yn targedu cydymffurfiaeth yn seiliedig ar berfformiad a risg gweithredwr.

Yn 2022, ni chafwyd unrhyw achosion o lygredd o weithgareddau gwastraff a weithredir gan Hafren Dyfrdwy.

Slwtsh

Mae Hafren Dyfrdwy yn cynhyrchu slwtsh yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw Hafren Dyfrdwy yn gyfrifol am unrhyw weithgareddau defnyddio slwtsh, felly mae eu defnydd o slwtsh yn cael ei adrodd drwy adroddiad perfformiad Dŵr Cymru. Felly nid oes gofyniad perfformiad ar gyfer defnyddio/gwaredu slwtsh ar gyfer Hafren Dyfrdwy.

Diogelwch cronfeydd dŵr

Mae Dŵr Cymru yn rheoli 134 o gyforgronfeydd dŵr mawr; ac mae 100 ohonynt wedi'u dynodi'n rhai risg uchel sy'n ddiffiniad cyfreithiol. Mae'r rhain yn gyforgronfeydd dŵr mawr yr ydym yn eu dynodi fel rhai risg uchel oherwydd ein bod yn meddwl y gallai bywyd dynol gael ei beryglu pe bai'r argae'n methu ac yn achosi gollyngiad dŵr heb ei reoli. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein tudalen we [Dynodi Risg](#).

Fe wnaethom ni gofnodi cydymffurfiaeth lawn gyda'r dangosyddion adeiladu, cydymffurfio a diogelwch drwy gydol 2022; roedd nifer yr achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth ar gyfer pob dangosydd yn sero, ac roedd lefel y gydymffurfiaeth fesul cronfa ar ffurf canran o holl gronfeydd cofrestredig Hafren Dyfrdwy yn 100%. Rydym ar ddeall fod gan Hafren Dyfrdwy ymrwymiad corfforaethol i'r Bwrdd ar gyfer cynnal y lefel hon o gydymffurfiaeth, ac rydym yn croesawu hynny.

Ystyriwn fod perfformiad Hafren Dyfrdwy yn rhagorol o ran bodloni'r gofynion hyn.

Ers 2016, mae Deddf Cronfeydd Dŵr ddiwygiedig a rheoliadau newydd yn golygu bod mwy o gronfeydd dŵr yn cael eu rheoleiddio ac yn cael eu dynodi gennym ni. Mae gan Hafren Dyfrdwy (a Severn Trent) bortffolio sylweddol sy'n cynnwys cronfeydd dŵr dros 100 oed. Disgwylwn i beirianwyr cronfeydd dŵr i asesu a chymhwyso safonau modern i'r strwythurau hyn, ac mae hynny'n anochel yn arwain at waith ychwanegol, gorfodol, ac yn rhoi baich ychwanegol ar y cwmnïau dŵr i'w cynnal.

Rheoli perygl llifogydd

O dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, caiff cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eu diffinio fel awdurdodau rheoli risg. Rhaid iddynt ymddwyn mewn modd sy'n gyson â'r Strategaeth ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru a'r Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol Genedlaethol ar gyfer Lloegr. Mae ganddynt ddyletswydd i gydweithredu ag awdurdodau rheoli risg eraill yng Nghymru a Lloegr.

Bob ychydig flynyddoedd rydym yn cynhyrchu adroddiad i Weinidogion Cymru ynghylch sut mae Strategaeth Genedlaethol FCERM yn cael ei gweithredu ledled Cymru ac rydym yn cynnwys enghreifftiau o arfer gorau drwy ystod o astudiaethau achos a allai gynnwys mentrau cwmni dŵr a charthffosiaeth. Rydym yn gwneud hyn ar ran yr holl awdurdodau rheoli risg sy'n gweithredu yng Nghymru, gan gynnwys felly Hafren Dyfrdwy. Disgwylir yr adroddiad nesaf ym mis Hydref 2023 (tair blynedd ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru) a bob dwy flynedd ar ôl hynny. Gweler ein tudalen we Perygl Llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru am ragor o wybodaeth.

Disgwyladau perfformiad ar gyfer 2023

Yn 2023, rydym yn disgwyl y bydd Hafren Dyfrdwy yn gwneud y canlynol:

- parhau i berfformio'n dda o safbwynt digwyddiadau llygredd difrifol, heb gael unrhyw ddigwyddiadau llygredd difrifol;

- cynnal sgôr SDBI o 100;
- parhau i gyflwyno cynlluniau gwella'r Cynllun Rheoli Asedau o fewn y terfyn amser.

Ac rydym yn disgwyl y bydd yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol er mwyn gwella perfformiad:

- lleihau nifer y digwyddiadau llygredd, gyda'r nod o gael dim digwyddiadau;
- anelu at hunan-gofnodi 100% o ddigwyddiadau llygredd;
- dychwelyd i lefel o gydymffurfiaeth lawn (100%) â therfynau rhifol ar gyfer gollyngiadau dŵr;
- anelu at gyflawni cydymffurfiaeth lawn (100%) ag amodau disgrifiadol mewn gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr;
- lleihau effaith gorlifoedd stormydd drwy gyflawni ei gamau gweithredu yn y cynlluniau gweithredu â'r mapiau trywydd ar gyfer gorlifoedd stormydd.

Atodiad

Sefydlwyd Hafren Dyfrdwy ar 1 Gorffennaf 2018 ond rydym yn defnyddio data yn yr adroddiad hwn sy'n dyddio nôl i 2015.

Ar gyfer data ar ddigwyddiadau a hunan-gofnodi, data cydymffurfio â thrwyddedau gollwng dŵr a data cydymffurfio â thrwyddedau adnoddau dŵr a nodir yn y testun a'r graff yn yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r ffynonellau data canlynol:

- ar gyfer **2015, 2016 a 2017**: gwnaethom gyfuno data gan Severn Trent yng Nghymru a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy
- ar gyfer **2018**, gwnaethom gyfuno dau gyfnod (cyn ffurfio Hafren Dyfrdwy ar 1 Gorffennaf 2018 ac ar ôl ei ffurfio):
 - o 1 Ionawr 2018 hyd at 30 Mehefin 2018: gwnaethom gyfuno data gan Severn Trent yng Nghymru a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy;
 - o 1 Gorffennaf 2018 hyd at 31 Rhagfyr 2018: gwnaethom gyfuno data gan Severn Trent Water yng Nghymru, Dŵr Dyffryn Dyfrdwy (gan y cafodd rhai amrywiadau trwydded eu cwblhau ar ôl 1 Gorffennaf) a Hafren Dyfrdwy;
- o 2019 ymlaen, gwnaethom ddefnyddio data gan Hafren Dyfrdwy yn unig.